Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# Cylchlythyr 2026 y GMC

# Rhagair gan Suzanne

Rwy'n falch o fedru rhannu cylchlythyr eleni gyda chi, sy'n cynnwys newyddion, gwybodaeth ac uchafbwyntiau o 2025, yn ogystal â chyfle i edrych ymlaen at 2026. Gobeithio y bydd y cynnwys yn ddiddorol, yn addysgiadol, ac yn ddefnyddiol i chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ble bynnag yr ydych chi yng Nghymru.

Unwaith eto, roedd 2025 yn flwyddyn brysur ond cyffrous iawn i bawb yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC). Nod y Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (VAA) oedd sicrhau bod gwybodaeth a chymorth o safon yn cael eu darparu i bawb – o ymholiadau mabwysiadu cychwynnol i'n mabwysiadwyr yn defnyddio gwasanaethau ôl-fabwysiadu.

Eleni, cyhoeddais fy ymddeoliad ddiwedd mis Mawrth 2026. Mae wedi bod yn fraint o'r mwyaf i fod yn y rôl hon, gan ddatblygu'r GMC o fod yn gysyniad mewn dogfen i gydweithrediad sydd wedi cyflawni newid a gwelliant gwirioneddol dros yr 11 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, dydw i ddim wedi gwneud hyn ar fy mhen fy hun, a diolch yn fawr i chi am y rôl rydych chi wedi'i chwarae a hefyd i fy nhîm. Mae'r amser wedi dod i rywun arall gymryd yr awenau yn y sefydliad anhygoel hwn, rhywun gyda llygaid ac egni ffres.

### Yn 2025, cyflawnodd y GMC lawer o ymrwymiadau pwysig:

- Fe wnaethon ni dreialu CAR B (Adroddiad Mabwysiadu Plant) wedi'i ddiweddaru a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Coram BAAF, sef dogfen newydd a fydd yn ein cynorthwyo i ddiwallu anghenion plant yn unol ag arferion mabwysiadu modern yng Nghymru.
- Lansiwyd ein hymgyrch 'Mae Nawr yn Amser Da', i annog mwy o bobl i ystyried mabwysiadu, gan fod nifer y plant sy'n aros am deuluoedd mabwysiadol yn parhau i gynyddu a nifer yr ymholiadau newydd i fabwysiadu wedi gostwng.
- Dyma ni'n lansio a gweithredu Fframwaith Ansawdd a Sgiliau newydd a fydd yn cefnogi gwelliannau i waith mabwysiadu ac yn cynorthwyo ymarferwyr ledled Cymru i gynnal asesiadau mabwysiadu.

Wrth i ni gychwyn 2026, rydym dal yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae pob teulu yng Nghymru yn eu hwynebu, oherwydd yr argyfwng costau byw sy'n parhau ymysg pethau eraill, ac rydym am sicrhau pawb fod cefnogaeth ar gael o hyd. Cysylltwch â'ch rhanbarth lleol, neu'r VAA, os ydych chi'n profi anawsterau sy'n ymwneud â mabwysiadu.

Hoffwn orffen drwy ddweud diolch yn fawr iawn i'n holl fabwysiadwyr, gofalwyr maeth ac eraill sy'n rhan o'r 'tîm' yng Nghymru. Rydych chi i gyd yn arddangos ymrwymiad a chefnogaeth anhygoel wrth helpu i leoli a chefnogi plant mewn cartrefi cariadus. Yn ogystal, rhaid i mi fynegi fy niolchgarwch i'r staff am yr holl wasanaethau sy'n rhan o, neu sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru – mae eich ymrwymiad i'ch gwaith yn cael ei weld.

**Dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.**

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru



# Uchafbwyntiau 2025

# Uchafbwyntiau 2025

## Ionawr – Mawrth

- Parhau i ddathlu ein 10fed Pen-blwydd

## Ebrill - Mehefin

- Ymwelwyd â Gŵyl y Gelli, ac roedd y stondin brysur yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i rai oedd yn mynychu'r ŵyl
- Cafwyd cyfarfod rhwng y Bwrdd Llywodraethu a rhanddeiliaid eraill ym mis Mehefin i ystyried cynllun ar gyfer Ebrill 2026 a thu hwnt

## Gorffennaf - Medi

- Ymwelwyd â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod yn fabwysiadwyr. Roedd y stondin yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys sesiynau amser stori, gwneud blancedi, ac addurno cacennau a bisgedi

## Hydref - Rhagfyr

- Y Sgwrs Fawr am Fabwysiadu – defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lywio a llunio blaenoriaethau ar gyfer cymorth mabwysiadu ledled Cymru yn y dyfodol
- Dathlwyd Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu 2025
- Lansiwyd 'Mae Nawr yn Amser Da' i annog mwy o bobl i ystyried mabwysiadu
- Dyfarnwyd MBE i Suzanne Griffiths yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin am wasanaethau i ofal cymdeithasol plant - cydnabyddiaeth haeddiannol o arweinyddiaeth, ymroddiad ac ymrwymiad diflino Suzanne i wella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru

# Cydnabyddiaeth haeddiannol i'n cyfarwyddwr

Rydym yn hynod falch o rannu bod ein cyfarwyddwr, Suzanne Griffiths, wedi derbyn MBE yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin am wasanaethau i ofal cymdeithasol plant.

Mae hyn yn gydnabyddiaeth haeddiannol o arweinyddiaeth, ymroddiad ac ymrwymiad diflino Suzanne i wella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd ledled Cymru. Llongyfarchiadau Suzanne!





# Uchafbwyntiau o’ch gwasanaethau lleol ledled Cymru

# Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru (MCGC)

Mabwysiadu
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adoption
Mid & West Wales

Bellach mae gan MCGC swydd newydd, sef Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol. Mae Claire Phillips yn gyffrous i ymuno â'r rheolwyr eraill ledled Cymru, gan weithio'n agos â'r GMC. Ei phrif flaenoriaeth fydd datblygu cynllun gwella CIW. Adlewyrchodd arolygiad MCGC sawl maes o arfer rhagorol.

### Recriwtio Mabwysiadwyr

Mae MCGC bellach yn gweithio'n agos gyda'r timau comisiynu ac wedi bod yn ymuno â digwyddiadau recriwtio maethu. Ym Mhowys (Canolbarth) fe fynychon ni 55 o ddigwyddiadau, ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymholiadau mabwysiadu.

### Diwrnodau o Weithgareddau Hwyl

Cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau haf ym Mharc Gwledig Pen-bre a Diwrnod Ysgol y Goedwig yn Hanner Tymor yr Hydref. Mae'r dyddiau hyn yn dod â theuluoedd ynghyd am ddiwrnod hamddenol, cefnogol a phleserus.

### Cysylltu

Caiff y grŵp Cymorth Cysylltiedig ei gynnal yn fisol yng Nghaerfyrddin, ac mae'r rhieni'n gefnogol a'r bobl ifanc yn ymgysylltu ac yn mwynhau'r gweithgareddau. Ein nod yw datblygu grŵp Canolbarth Cymru ar-lein yn y Gwanwyn gyda chyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn.

### Gwaith Taith Bywyd

Mae staff cymorth mabwysiadu yn datblygu eu sgiliau wrth ddarparu Gwaith Hanes Bywyd Therapiwtig mewnol gyda dau aelod o staff yn cwblhau'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Gwaith Hanes Bywyd Therapiwtig a Diploma Gwaith Hanes Bywyd Therapiwtig.

### Cymorth yng Nghyswllt Hanes Bywyd

Mae ein Grwpiau Cymorth yng Nghyswllt Hanes Bywyd misol yn parhau i ddod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o bob cwr o'r rhanbarth, gan gynnig lle cydweithredol i archwilio gwaith hanes bywyd uniongyrchol a chreu deunyddiau taith bywyd ystyrlon.

### Grŵp Cymorth i Dadau

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mae dau Weithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu gwrywaidd (Nick Guy a Neil Webb) wedi lansio grŵp cymorth newydd ar gyfer tadau mabwysiadol o ganlyniad i adborth bod dynion a thadau weithiau'n cael eu hanwybyddu pan fyddwn ni'n trefnu digwyddiadau. Rydym yn cydnabod y gall dod yn dad—trwy ba bynnag lwybr—olygu heriau emosiynol, ymarferol ac ariannol. Gyda grŵp wedi ei sefydlu a bellach yn awyddus i gyfarfod yn rheolaidd, rydym yn bwriadu cynnal cyfarfodydd bob dau fis drwy gydol 2026.

### Dewch o hyd i ni ar:

- adoptionmwwales.org.uk/
- mabwysiaducgcymru.org.uk/
- facebook.com/adoptmwwales
- instagram.com/adoptmwwales

# Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

### Cynnal 8fed Diwrnod o Hwyl i'r Teulu Blynyddol

Cynhaliodd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ei 8fed diwrnod o hwyl i'r teulu blynyddol ym mis Medi. Mae ein teuluoedd mabwysiadol yn edrych ymlaen yn eiddgar at y digwyddiad hwn bob blwyddyn. Eleni, croesawyd dros 94 o deuluoedd a 150 o blant i'r digwyddiad.

### Gwaith Taith Bywyd

Mae ein grŵp 'Baby Steps' ar gyfer rhieni plant 0 i 6 oed i drafod pob agwedd ar waith taith bywyd. Yn ei hwyluso mae Sarah Ryan a Susanne McCarthy mewn partneriaeth â'n hymarferwyr therapiwtig sy'n cynnal sesiwn aros a chwarae i'r plant.

### Ymgyrch Hysbysebu

Gyda chefnogaeth Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, fe wnaethon ni sicrhau cyllid i dalu am ymgyrch hysbysebu ar gefn bysiau. Teithiodd pymtheg o fysiau am chwe wythnos rhwng Awst a Medi ar draws chwe Awdurdod Lleol yn Ngogledd Cymru. Y flwyddyn nesaf, ein nod yw cynyddu ein gwelededd o fewn y gymuned, rhannu mwy o wybodaeth am am weithgareddau'r gwasanaeth, cefnogi ein teuluoedd mabwysiadol, a recriwtio mwy o rieni ymroddedig ar gyfer plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu.

### Ymgysylltu â'r Gymuned a Digwyddiadau

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn parhau i weithio'n rhagweithiol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau allweddol:

Roedd yr Eisteddfod yn llwyddiant mawr o ran gwelededd a phroffesiynoldeb, gan greu cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr gyda gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Bwrdd Partneriaeth Diogelu a chysylltiadau yn y cyfryngau.

Mae ein Swyddog Marchnata a Recriwtio yn meithrin partneriaethau newydd ar draws chwe Awdurdod Lleol Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

### Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu

Trefnwyd digwyddiadau gwybodaeth rhithwir dwyieithog.

Cysylltodd MRO â phob un o'r 55 llyfrgell ledled Gogledd Cymru, postiwyd llyfr Yr Eirth Mewn Blancedi a threfnu dwy fenter wedi eu lleoli yn y llyfrgell, gan gynnwys darlleniadau ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.

### Edrych Ymlaen

Bydd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn parhau i ehangu ei bresenoldeb yn y gymuned, gan gryfhau partneriaethau, hyrwyddo gwasanaethau mabwysiadu a chefnogi teuluoedd—gan sicrhau bod mwy o blant yn dod o hyd i gartrefi cariadus, parhaol ac anogol.

### Dewch o hyd i ni ar:

northwalesadoption.co.uk

facebook.com/mabwysiadugogleddcymru

# Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)

South East Wales Adoption Service
Achieving More Together

Cafodd Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru eu harolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru yr haf hwn, a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 25 Medi 2025. Mae rhai uchafbwyntiau pwysig i ni yn cynnwys enghreifftiau o arfer da ac adborth cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod ein mabwysiadwyr wedi'u paratoi a'u cefnogi'n dda, bod plant yn ddiogel a bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar blant.

## Digwyddiadau

Cododd SEWAS ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau cymunedol fel Gŵyl y Gelli, Pride Blaenau Gwent, Diwrnod Chwarae Cenedlaethol, Diwrnod i'r Teulu Cas-gwent, Pride in the Port a Sioe Brynbuga. Fe wnaethon ni ddathlu Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu gydag arth SEWAS, Enfys, drwy fynd ar daith ar draws ein 5 Awdurdod Lleol a dogfennu'r daith ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethon ni (a'r arth) ymgysylltu â'r gymuned mewn digwyddiadau wedi'u trefnu, stondinau dros dro a goleuwyd canolfan ddinesig Casnewydd gyda golau porffor i nodi'r achlysur hyd yn oed.

Fe wnaethon ni drefnu nifer o ddigwyddiadau ar gyfer ein mabwysiadwyr a'u teuluoedd fel Sesiynau Hwylio, Diwrnod Gweithgareddau Chwaraeon Dŵr, Maggie's Voice (marchogaeth), Sesiynau Aros a Chwarae a chynnal y Grŵp Connected ar gyfer pobl ifanc ar y cyd ag Adoption UK. Fe wnaethon ni hefyd gynnal ein diwrnod o hwyl i'r teulu blynyddol sydd bob amser yn llwyddiant ysgubol ymysg teuluoedd a staff.

## Rheoleiddio Trwy Weithgaredd

Mynychodd mabwysiadwyr ein Gweithdy Rheoleiddio Trwy Weithgaredd a gynhelir gan Therapydd Galwedigaethol Arbenigol Synhwyraidd ac Ymlyniad. Mae'r grŵp hwn yn helpu rhieni mabwysiadol i ddysgu mwy am anghenion synhwyraidd ac ymlyniad mewn cydweithrediad â Phrawf Galwedigaethol Arweinydd Strategol Clinigol CAMHS a Gwasanaeth Seicoleg Gwent. Roedd hyn yn rhan o beilot sy'n gobeithio datblygu pecynnau ymyrraeth a chefnogaeth i blant sydd wedi dioddef trawma sy'n effeithio ar brosesu ac integreiddio synhwyraidd. Mae'r grŵp hwn yn enghraifft ardderchog o weithio mewn cydweithrediad ag Iechyd. Dywedodd rhieni a fynychodd y grwpiau hyn eu bod wedi cael agoriad llygad, ei fod yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol a'i fod wedi rhoi syniadau newydd iddyn nhw er mwyn cefnogi eu plant.

### Dewch o hyd i ni ar:

- southeastwalesadoption.co.uk/?lang=cy
- facebook.com/SEWASAdoption
- instagram.com/sewasadoption

# Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC)

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

Eleni, fe wnaethon ni barhau i godi ymwybyddiaeth o fabwysiadu yn ein pedair ardal awdurdod lleol. Fe wnaethon ni gynnal stondinau yn Pride Cymru yng Nghaerdydd ar ran y GMC yn ogystal â VVC, Pride y Barri a sioe Bro Morgannwg a greodd gyfle gwych i siarad â'r cyhoedd a chysylltu â phobl sydd wedi eu mabwysiadu, teuluoedd geni, a theuluoedd mabwysiadol. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, fe wnaethon ni hefyd chwilio am gyfleoedd newydd i gysylltu â'n cymunedau fel gosod stondinau yn Trago Mills a Ffair Grefftau Pont-y-clun.

## Llwyfannau Digidol

Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar ddefnyddio ein llwyfannau digidol i rannu straeon gan deuluoedd mabwysiadol a'n staff i gynnig cipolwg manylach ar gymhlethdodau mabwysiadu. Cafodd y rhain eu croesawu a'u rhannu.

## Ymgyrch Genedlaethol

Cymerodd dau o'n mabwysiadwyr ran yn yr ymgyrch genedlaethol 'Mae Nawr yn Amser Da' a gododd ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth ledled Cymru. Dyma ni hefyd yn cymryd rhan yn wythnos mabwysiadu a maethu New Family Social a gododd ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth ar lefel genedlaethol.

## Digwyddiadau

Gwnaethon ni fynychu Gŵyl y Gelli gyda SEWAS a'r Urdd gyda Bae'r Gorllewin i gefnogi ein hasiantaethau partner. Ymunon ni hefyd â Maethu Cymru ar eu stondin yng Nghanolfan Dewi Sant ddwywaith eleni ac rydym yn bwriadu parhau i weithio mewn partneriaeth agos â nhw ar ddigwyddiadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Dewch o hyd i ni ar:

- adopt4vvc.org
- instagram.com/vvcadoption
- instagram.com/mabwysiadufcc
- facebook.com/vvcadoption
- facebook.com/mabwysiadufcc

# Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin

Wrth i ni edrych yn ôl ar 2025, mae nifer o ddatblygiadau ac uchafbwyntiau yr ydym yn hynod falch ohonynt fel gwasanaeth.

## Recriwtio / Dod o Hyd i Deuluoedd

Mae dulliau a phartneriaethau newydd yn talu ar ei ganfed o ran paru a sicrhau canlyniadau gwell i blant. Mae digwyddiadau Diwrnodau Gweithgaredd a gynhaliwyd yn ail hanner y flwyddyn wedi arwain at rai canlyniadau addawol gyda 9 pariad anhygoel yn dod i'r amlwg o ganlyniad uniongyrchol i'r dyddiau hyn. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i wella ein perthnasoedd â Gofalwyr Maeth yn ystod y flwyddyn trwy gynnal boreau coffi a chyfarfodydd mwy ffurfiol i drafod anghenion plant, y cyfnod pontio ac unrhyw heriau wrth iddynt symud tuag at fabwysiadu.

## Marchnata ac Allgymorth

Roeddem yn falch o effaith ein hysbysebu awyr agored ar ffurf hysbysebion cefn bws ac ar bympiau petrol, yn ogystal â baneri mawr ar bontydd. Roedd hefyd yn bleser bod mewn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel ar draws y rhanbarth fel Sioe Awyr Cymru, Ras Raftiau'r Mwmbwls, ac ymuno â chydweithwyr rhanbarthol a chenedlaethol yng Ngŵyl y Gelli.

## Cymorth Mabwysiadu

Blwyddyn brysur i'r rhan hon o'r gwasanaeth wrth i ni lansio canolfannau rhithwir newydd ar gyfer Stori Taith Bywyd a Chyswllt a'n grŵp cymorth 'Cylch Cysylltiedig' newydd ar gyfer teuluoedd. Mae grwpiau Cylch Cysylltiedig yn seiliedig ar elfennau Theraplay ac fe'u crëwyd mewn ymateb i'r anawsterau y gall rhieni newydd eu profi'n gynnar ar eu siwrnai. Rydym wedi derbyn adborth gwych gan y grŵp gan gynnwys: "Basen i'n argymell y grŵp 100% i deuluoedd eraill!".

Un uchafbwynt o'n Clwb Ieuenctid poblogaidd eleni oedd y digwyddiad a drefnwyd ac a reolwyd gan yr aelodau ar gyfer y Pasg. Roedd hyn yn cynnwys dau o'r bobl ifanc yn gwneud cais ar ffurf Dragons' Den i'r Banc Ieuenctid am gyllid ar gyfer y digwyddiad - roedd mor drawiadol nes iddynt dderbyn arian ychwanegol hyd yn oed! Roedd y digwyddiad ar y thema deinosoriaid, ac fe'i mynychwyd gan 40 o'n teuluoedd. Roedd yn llwyddiant ysgubol a cafwyd adborth gwych gan bawb!

## Archwiliad Cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru

Cawsom archwiliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ddechrau mis Medi ac roeddem yn falch gyda'r canlyniadau gyda sawl maes o arfer da yn cael eu nodi ledled y gwasanaeth. Mae hyn yn dyst i waith caled y staff bob dydd.

## Dewch o hyd i ni ar:

- www.westernbayadoption.org/cy
- facebook.com/westernbayadoption
- twitter.com/bayadoption
- instagram.com/western_bay_adoption

# Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru

Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.

Eleni, rydyn ni wedi canolbwyntio ar dyfu ein cymuned fabwysiadu a chynyddu ein harfer o ran creu dulliau creadigol o gadw mewn cysylltiad. Mae cefnogi teuluoedd i feithrin hunaniaeth plant a chynnal cysylltiadau diogel ac ystyrlon wedi parhau i fod yn ganolog i'n gwaith.

## Arwain Gwelliannau i Arfer ar Draws y Sefydliad

Cymeron ni rôl flaenllaw o fewn sefydliad ehangach Barnardo's drwy sefydlu Grŵp Gwaith Cadw mewn Cysylltiad. Ei nod yw sicrhau bod pob teulu mabwysiadol yn derbyn canllawiau, offer ac adnoddau cyson i'w helpu i gynnal cysylltiadau ystyrlon Cadw mewn Cysylltiad i blant. Un o'r prif bethau i'r grŵp ei gyflawni oedd datblygu ein Canllaw Cadw mewn Cysylltiad newydd.

## Cynigion Hyfforddi Newydd

I gefnogi mabwysiadwyr drwy gydol eu siwrnai, lansiwyd dwy raglen hyfforddi newydd eleni.

- Mae Dulliau Creadigol o Gadw mewn Cysylltiad yn archwilio ystod eang o ddulliau er mwyn meithrin cysylltiadau.
- Mae Deall Profiadau Teuluoedd Geni yn darparu persbectif sy'n seiliedig ar drawma ar amgylchiadau a phrofiadau teuluoedd geni.

## Cryfhau ein Cymuned

Mae cymuned wedi parhau i fod yn gonglfaen i'n gwaith, ac roedden ni wrth ein bodd yn dod â theuluoedd ynghyd mewn cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru. Roedd uchafbwyntiau'n cynnwys teithiau haf i Techniquest a Chanolfan Wyddoniaeth Xplore!, ac yna teithiau ar thema Calan Gaeaf i ffermydd pwmpenni ledled y wlad. Fe wnaethon ni orffen y flwyddyn gydag ymweliad i bantomeim ym mis Rhagfyr a oedd yn boblogaidd iawn.

## Lansio ein Padlet mabwysiadu

Carreg filltir bwysig eleni oedd lansio Padlet Mabwysiadu newydd sbon Barnardo's Cymru. Mae'r gofod ar-lein yma sy'n hawdd ei lywio yn dod ag offer ac adnoddau ymarferol, a gwybodaeth hanfodol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer anghenion ein teuluoedd mabwysiadol ynghyd.

## Edrych Ymlaen

Wrth i ni groesawu blwyddyn newydd, rydyn ni wedi ymrwymo i gynyddu ein gwaith gyda theuluoedd geni i sicrhau bod eu lleisiau, eu profiadau a'u safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu mewn modd ystyrlon yn y gefnogaeth rydyn ni'n darparu i deuluoedd mabwysiadol. Bydd cryfhau'r perthnasoedd hyn yn ein helpu i adeiladu arfer sydd hyd yn oed yn fwy tosturiol, cynhwysol ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

## Dewch o hyd i ni ar:

barnardos.org.uk/wales

facebook.com/barnardoscymrufosteradopt/

# Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant

Mewn cyfnod sy'n parhau i fod yn heriol ar gyfer mabwysiadu, mae Dewi Sant yn falch o fod wedi profi nifer cyson o ymholiadau a lleoliadau mabwysiadu llwyddiannus. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu effaith ein strategaeth recriwtio a marchnata newydd, gan helpu mwy o blant i ddod o hyd i gartrefi cariadus, am oes, wrth gysylltu teuluoedd â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

### Cyllid

Rydym wrth ein bodd yn rhannu ein bod wedi sicrhau cyllid am dair blynedd ar gyfer Gweithiwr Plant a Phobl Ifanc ymroddedig trwy Grant Plant mewn Angen. Bydd y rôl hon yn cynnig cefnogaeth un-i-un a gweithgareddau grŵp wedi'u teilwra, gan helpu plant a phobl ifanc i ffynnu ar eu siwrnai ar ôl mabwysiadu.

### Hanner Marathon Caerdydd

Roedd Hanner Marathon Caerdydd y llynedd hefyd yn uchafbwynt gwirioneddol. Cododd dau redwr ar bymtheg anhygoel dros £9,000 i gefnogi gwasanaethau ôl-fabwysiadu ledled Cymru. Rydym eisoes yn paratoi ar gyfer 2026, gyda 20 o redwyr wedi cofrestru ac yn barod i sicrhau fod pob milltir yn cyfrif, a hynny yn Hanner Marathon Caerdydd a Marathon Llundain.

### Dathliad yr Haf

Roedd ein Dathliad Haf Blynyddol yn un o'n rhai mwyaf eto, gan ddod â dros 70 o deuluoedd ynghyd yng Nghaerdydd am ddiwrnod o chwerthin, hud a chreadigrwydd. Roedd uchafbwyntiau eraill yn cynnwys twf ein digwyddiadau yng ngogledd Cymru, gweld mwy a mwy o deuluoedd yn dod ynghyd, a'n Parti Nadolig poblogaidd.

### Newyddion y Tîm

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Zia Swinbourne i'r tîm. Gyda dros ddegawd o brofiad ar draws asesiadau, cefnogaeth ôl-fabwysiadu, a gwasanaethau cyswllt ar gyfer oedolion mabwysiedig a theuluoedd geni, bydd Zia yn cyfrannu arbenigedd amhrisiadwy i bob cam o'r siwrnai fabwysiadu.

### Peilot Mynediad i Gofnodion Newydd y GMC

Mae wedi bod yn ail flwyddyn brysur i'r Gwasanaeth Mynediad i Gofnodion Cyn 1976 a Chyswllt. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd pob un o'r pum Gwasanaeth Rhanbarthol yn cyfeirio at y gwasanaeth hwn. Mae gwerthusiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn—gan gynnwys eu rhyngweithiadau â'n cydweithwyr yn y Rhanbarthau—wedi bod yn gadarnhaol.

Wrth i ni fyfyrio ar flwyddyn o dwf, llwyddiant, a cherrig milltir llawen, rydym yn gyffrous ar gyfer yr hyn sydd o'n blaenau. Gyda sylfeini cryf, staff ymroddedig, a chymuned ymgysylltiedig, mae 2026 yn addo i fod yn flwyddyn arall llawn gobaith a newid cadarnhaol i blant a theuluoedd ledled Cymru.

### Dewch o hyd i ni ar:

www.stdavidsadoptionservice.org/cy

facebook.com/stdavidschildrensociety

instagram.com/stdavidsadoptionservice

# AFKA Cymru

Yn 2025, dathlodd AFKA Cymru ein pen-blwydd yn 10 oed.

Diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Ewch i dudalen hafan ein gwefan i wylio ein fideo dathlu - Cymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu - AFKA Cymru

## Fframwaith Rhinweddau a Sgiliau Mabwysiadu

Drwy gydol 2025, mae AFKA Cymru wedi cefnogi'r GMC i weithredu'r Fframwaith Rhinweddau a Sgiliau Mabwysiadu. Mae'r fframwaith yn declyn cyfeirio cyffredinol i ymarferwyr, gan sefydlu set glir o rinweddau a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer rhianta mabwysiadol llwyddiannus. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi ymarferwyr i ddefnyddio'r fframwaith hwn mewn ffordd ymarferol. Diolch i bawb a fynychodd y sesiynau, gobeithio eich bod wedi mwynhau dysgu oddi wrthyn ni gymaint ag yr ydyn ni wedi mwynhau dysgu oddi wrthych chi.

## Dod o Hyd ac Adeiladu Teuluoedd Mabwysiadol i Blant yng Nghymru: Canllaw Arfer Da

Diolch i bawb y gwnaethon ni ymgynghori a gweithio ochr yn ochr â nhw i gynhyrchu canllawiau newydd y GMC ar gyfer dod o hyd i deuluoedd yng Nghymru. Roedd 2025 yn flwyddyn brysur yn llunio'r cyhoeddiad hwn ac edrychwn ymlaen at y lansiad ddechrau 2026 a'r digwyddiadau hyfforddi sydd ar y gweill yn y gwanwyn.

## Diweddariadau Ffurflenni Asesu

Mae AFKA Cymru wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r GMC i adolygu'r ffurflenni CAR/B a PAR presennol, sy'n cael eu diwygio ar hyn o bryd gan Coram BAAF. Rydym yn parhau i ymgynghori â'r sector i sicrhau bod y ffurflenni diwygiedig yn addas i'w defnyddio yng Nghymru.

## Digwyddiadau a Gweithdai

Yn ystod 2025, dyma ni'n hwyluso gweithdai a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer mabwysiadwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys hwyluso Cynhadledd y GMC ym mis Hydref. Roedd yn gyfle gwych i ni gwrdd â chymaint ohonoch chi. Mae gennym ni lawer mwy o feysydd i'w harchwilio dros y flwyddyn nesaf. Gobeithio y gwelwn ni chi yn ein digwyddiadau hyfforddi a chynhadleddau. Edrychwn ymlaen at ymgynghori a gweithio gyda chi i gyd yn 2026.

**Dewch o hyd i ni ar:**

afkacymru.org.uk

AFKA Cymru

# Adoption UK Cymru

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

### Ffarwelio a Chroesawu Arweinyddiaeth Newydd

Fe wnaethon ni ffarwelio â'n cyfarwyddwr, Bek Burns ym mis Ionawr 2025, a chamodd Jane White i mewn i'r rôl. Yna, dychwelodd Mandy Rowsell i AUK fel Pennaeth Gwasanaeth ym mis Mehefin 2025.

### Chwalu Rhwystrau Mewn Addysg

Fe wnaethon ni barhau i ddarparu ein hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer staff addysgol gan ganolbwyntio ar eu helpu i gefnogi dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth sydd wedi eu mabwysiadu. Eleni, ehangwyd hyn i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion Uwchradd yng Nghymru. Fe wnaethon ni hefyd gyflwyno 'Caffis Addysg' newydd i gael lle mwy rhyngweithiol i weithwyr proffesiynol ddod at ei gilydd a meddwl am yr heriau a'r strategaethau y gellir eu defnyddio mewn ysgolion. Mae'r sesiynau hyn dal ar gael i'w harchebu ar gyfer Addysgwyr drwy: www.adoptionuk.org/supporting-care-experienced-learners

Mae ein prosiect Cynghrair Mabwysiadu yn gweithio gyda phobl ifanc (14 oed+) yng ngogledd Cymru gan geisio cael ysgolion i ddeall anghenion pobl ifanc yn yr ysgol sydd wedi eu mabwysiadu. Eleni, gyda chefnogaeth Youth Friendly, dyma nhw'n creu animeiddiad byr o effaith Bwlio yn yr ysgol. Bydd pecyn adnoddau ysgol i gyd-fynd â'r animeiddiad ar gael yn fuan. Gellir gwylio'r ffilm fer yma: vimeo.com/1131658404?fl=ip&fe=ec

### Gwasanaeth Connect: Creu Cysylltiadau ac Adeiladu Sgiliau

Cefnogodd ein grwpiau Connect dros 200 o blant a phobl ifanc mewn grwpiau ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau o goginio a chrefftio i ddringo ac adeiladu rafft!

Mae Cyngor Ieuenctid Lleisiau Connect yn parhau i gyfarfod a dyma nhw'n cael eu cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf erioed eleni lle canolbwyntion nhw ar recriwtio mwy o aelodau i'r Cyngor. Mae aelodau'r Cyngor wedi bod yn brysur eleni, yn cyfrannu tuag at adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn gweithio ar sut y gallant gynyddu effaith barn a safbwyntiau pobl ifanc sydd wedi eu mabwysiadu yn 2026.

### Gwasanaeth PATH MDT

Ar ddechrau 2025, dechreuon ni gyflwyno ein gwasanaeth MDT Tîm Amlddisgyblaethol newydd o fewn PATH (Hwb Seicoleg a Therapi). Mae gwasanaeth PATH MDT yn dechrau gyda chyfarfod cychwynnol i gasglu gwybodaeth fanwl gan y teulu a'r atgyfeiriwr, ac yna trafodaeth tîm amlddisgyblaethol i gytuno ar fformiwleiddiad - dealltwriaeth o anghenion y teulu a rennir - sydd wedyn yn arwain datblygiad cynllun ymyrraeth unigol. Mae pob atgyfeiriad fel arfer yn derbyn cyfartaledd o 10 sesiwn, wedi'u llunio o amgylch y fformiwleiddiad i sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei thargedu, ei chydlynu a'i bod yn effeithiol. Derbyniwyd 111 o atgyfeiriadau ar gyfer MDT yn 2025 a bûm yn gweithio gyda 295 o deuluoedd ledled Cymru.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu therapi seicolegol a chefnogaeth cyfoedion i oedolion sydd wedi eu mabwysiadu trwy gyllid Mynediad at Gofnodion y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a ddarperir mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant i sicrhau bod cefnogaeth therapiwtig arbenigol ar gael i'r rhai sy'n archwilio eu hanes mabwysiadu. Yn 2025, gwelsom 25 o oedolion (11 atgyfeiriad newydd) ar ryw ffurf fel rhan o lwybr oedolion.

Rydym yn parhau i fod yn agored i atgyfeiriadau newydd ar gyfer therapi seicolegol a chefnogaeth gan gymheiriaid i unrhyw un a fabwysiadwyd cyn 1976 ac sy'n cael mynediad at gofnodion neu wasanaeth cyfryngol. Gellir gwneud atgyfeiriadau trwy weithwyr cymdeithasol mabwysiadu mewn asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol neu wirfoddol.

### Cymuned Fabwysiadu

Yn 2025 cynhaliwyd dau ddigwyddiad Y Sgwrs Fawr am Fabwysiadu yn canolbwyntio ar lesiant emosiynol trwy lygaid Mabwysiadu a Deall y berthynas Rhwng Iechyd, Addysg a Mabwysiadu. Roedd y digwyddiadau rhyngweithiol hyn yn caniatáu i ni gasglu eich barn a fydd yn cael ei defnyddio i lywio polisi a gweithdrefn y GMC yn y dyfodol.

Rydym nawr yn canolbwyntio ar 2026 ac wedi lansio ein Baromedr blynyddol ac yn gofyn i chi ei gwblhau. Dim ond 10 munud y mae'n cymryd i'w gwblhau a thrwy ei gwblhau gallwch ein helpu i ddwyn penderfynwyr i gyfrif ar bolisi ac arfer mabwysiadu. Cwblhewch arolwg y Baromedr Mabwysiadu 2026 yma.

### Dewch o hyd i ni ar:

adoptionuk.org/wales

facebook.com/aukcymru

# Cofrestr Fabwysiadu Cymru (ARW)

Mae tîm ARW yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ag ymarferwyr o bob cwr o Gymru er mwyn cefnogi'r broses o ddod o hyd i deuluoedd mewn modd amserol i blant a mabwysiadwyr. Cynhaliwyd hyfforddiant atgoffa i staff ar ddefnyddio'r Cofrestr/Gwneuthurwr Cyswllt ym mis Ebrill a mis Hydref. Mae sesiwn arall wedi'i chynllunio ar gyfer mis Chwefror 2026 gyda mwy o ddyddiadau i ddod yn hwyrach yn y flwyddyn.

Cynhaliwyd gweithdy ysgrifennu proffiliau ar 1af Hydref i helpu ymarferwyr i wella ansawdd proffiliau ysgrifenedig ar gyfer plant a mabwysiadwyr. Cawsom adborth cadarnhaol gan staff a fynychodd ac felly rydym yn bwriadu cynnal gweithdy arall yn 2026.

Cynhaliwyd Diwrnod Cyfnewid Mabwysiadu ar 26 Mawrth yng Nghaerdydd. Dyma'r Diwrnod Cyfnewid cyntaf i gael ei gynnal ers pandemig Covid 19. Gwahoddwyd darpar fabwysiadwyr i fynychu'r digwyddiad i gwrdd â'r rhai sy'n chwilio am deuluoedd a gweithwyr cymdeithasol o bob cwr o 5 Rhanbarth Cymru. Proffiliwyd 97 o blant o bob cwr o Gymru yn y digwyddiad hwn. Mynychodd 14 o deuluoedd a gwnaed 20 datganiadau o ddiddordeb a arweiniodd at 3 pariad llwyddiannus.

Ar 28ain Mehefin, cynhaliwyd ein 10ed Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu yng Nghaerdydd. Roedd thema jyngl i'r digwyddiad gyda 39 o blant o bob cwr o Gymru yn rhan ohono. Mynychodd 34 o blant ar y diwrnod gyda'u gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol a mynychodd 19 o deuluoedd hefyd. Arweiniodd y digwyddiad at 35 datganiad o ddiddordeb gydag 8 pariad llwyddiannus - y nifer uchaf i gael eu creu mewn Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu yng Nghymru hyd yn hyn.

Mae cynllunio ar y gweill ar gyfer y Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu nesaf a gynhelir ar 21ain Mawrth 2026. Os ydych chi'n fabwysiadwr wedi eich cymeradwyo ac â diddordeb mewn mynychu, siaradwch â'ch asiantaeth fabwysiadu ac fe wnawn nhw eich cyfeirio aton ni.



# Baromedr Mabwysiadu 2025

## Eleni cafwyd 3591 o ymatebion ledled y DU, gyda 370 o'r rheiny yng Nghymru.

Cymru hefyd oedd yr unig ranbarth yn y DU i sgorio 'da' ar gyfer pob elfen o'r asesiad o bolisïau cenedlaethol presennol yn y camau cynnar. Ar y cyfan, mae mabwysiadwyr a'r sawl a fabwysiadwyd yng Nghymru yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol nag mewn gwledydd eraill.

Er bod y canfyddiadau cyffredinol yn gadarnhaol, mae gwaith i'w wneud o hyd i gefnogi'r sawl â'u mabwysiadwyd sydd nawr yn oedolion, gyda dim ond 70% yn teimlo'n hyderus bod cefnogaeth addas ar gael tra'n ceisio cofnodion hanesyddol tra bod 32% wedi gorfod gohirio diagnosis neu driniaeth oherwydd diffyg hanes meddygol.

Cymerwch olwg ar yr ystadegau allweddol ar y dudalen nesaf →

# Ystadegau allweddol yng Nghymru

Mae **85%** o fabwysiadwyr newydd yn cytuno bod eu hyfforddiant wedi'u paratoi'n dda

Mae **39%** o deuluoedd yn wynebu heriau difrifol

Mae **64%** o fabwysiadwyr yn fodlon gydag ansawdd cefnogaeth fabwysiadu well

Dywedodd **74%** o deuluoedd a gafodd fynediad at gefnogaeth graidd ei fod wedi cael effaith gadarnhaol

# Uchafbwynt Partner

## Siarad Gyda Fi

Mae ymennydd dy blentyn yn anhygoel! Mae'n tyfu o hyd ac yn gwneud cysylltiadau newydd. Pan fyddi di'n chwarae, gwrando a siarad gyda dy blentyn, rwyt ti'n ei helpu i ddysgu siarad ac yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae gan Siarad Gyda Fi lawer o offer, tips a chyngor i dy helpu i gael dy blentyn i siarad. Bydd y pethau bach rwyt ti'n eu gwneud yn gwneud gwahaniaeth mawr, nawr ac yn y dyfodol.

**Dewch o hyd iddyn nhw ar:**

llyw.cymru/siarad-gyda-fi



# I ddod yn 2026...



Wrth i ni gychwyn 2026, bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mabwysiadwyr, pobl ifanc sydd wedi eu mabwysiadu a'r gymuned fabwysiadu ledled Cymru; gan barhau i hysbysu darpar fabwysiadwyr am anghenion y plant sy'n aros a chodi ymholiadau ar gyfer y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu ar hyn o bryd.

**I ddarganfod mwy am yr hyn sydd i ddod yn 2026, dilynwch ni a'r gwasanaethau lleol ledled Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf.**

Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Angen mwy o help?
# **Dim problem.**

**Cysylltwch**
Ffôn: 029 2087 3927
E-bost: contact@mabwysiaducymru.com
adoptcymru.com/hafan